

Manylion y Swydd

Teitl y Swydd

Rheolwr Gweinyddol

Dyddiad cau

29/07/2019

Nodiadau am y swydd

Y sefydliad

Mae Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor yn Goleg Rhyngwladol a weithredir gan Oxford International mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor. Mae BUIC yn darparu rhaglenni integredig mewn coleg sydd wedi'i leoli ar gampws y brifysgol. Mae'r rhaglenni hyn yn paratoi myfyrwyr rhyngwladol ar gyfer cam nesaf eu graddau baglor a meistr ym Mhrifysgol Bangor ac yn cynnwys modiwlau i ddatblygu eu sgiliau iaith Saesneg a'u sgiliau astudio yn ogystal â modiwlau academaidd. Mae BUIC wedi bod yn gweithredu ers 2016 ac eisiau recriwtio Rheolwr Gweinyddol.

Y cyfle

Mae Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor eisiau penodi Rheolwr Gweinyddol. Mae'r Rheolwr Gweinyddol yn cyflawni'r holl swyddogaethau yn y Coleg nad ydynt yn rhai addysgu. Rhagwelir y bydd cyfrifoldebau rheoli tîm y Rheolwr Gweinyddol yn cynyddu wrth i'r Coleg dyfu o ran niferoedd myfyrwyr ac y penodir aelodau o dîm gweinyddol mwy arbenigol. Ar hyn o bryd, bydd angen i'r sawl a benodir allu ymdrin ag ystod eang o dasgau a bod yn barod i weithredu mewn ffordd hyblyg iawn.

Pam ymuno â ni? Dyma'r manteision:

- Cyflog cystadleuol;
- 25 diwrnod o wyliau â thâl yn ogystal â'r gwyliau banc arferol;
- Cyfle i ymuno â sefydliad a fydd yn cefnogi eich datblygiad proffesiynol a phersonol parhaus;
- Cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc;
- Mynediad at blatfform Perkbox i staff sy'n cynnig gostyngiadau ar aelodaeth campfa, tocynnau sinema a 250 o fanteision eraill;
- Cynllun beicio i'r gwaith
- Benthyciadau di-log ar gyfer tocynnau teithio tymor;
- Cynllun pensiwn personol y grŵp.

Sut i wneud cais

Rhaid i bob ymgeisydd wneud cais drwy wefan OIEG: <https://www.oxfordinternational.com/about-oxford-international/recruitment/>

drwy gyflwyno copi o'r ffurflen gais a chopi cyfredol o'u CV. Mae OIEG wedi ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a rhaid i ymgeiswyr fod yn barod i fynd drwy drefn sgrinio amddiffyn plant sy'n briodol i'r swydd, gan gynnwys gwiriadau gyda chyn-gyflogwyr a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae OIEG yn gyflogwr cyfle cyfartal.

